BRITISH CANOEING
AWARDING BODY



# Dyfarniad

# HyfforddiCanŵio Prydain

# Pecyn Diwrnod Asesu

## Rhagarweiniad

Croeso i Becyn Diwrnod Asesu Dyfarniad Hyfforddi Canŵio Prydain.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys manylion pob tasg asesu a chrynodeb cyffredinol o'r deilliannau y mae angen i chi eu cyflawni. Mae hefyd yn darparu cofnod o'ch llwyddiannau i chi ar ôl cwblhau'r asesiad.

Mae manylion pellach ynghylch yr holl elfennau sydd eu hangen cyn yr ardystiad wedi eu cynnwys yng Nghanllaw Cwrs a Chanllawiau Asesu'r Dyfarniad Hyfforddi.

## Rhagofynion

Rhaid eich bod wedi cwblhau nifer o ragofynion cyn eich Asesiad Dyfarniad Hyfforddi. Ceir manylion penodol (a dewisiadau derbyniol eraill) yng Nghanllaw Cwrs y Dyfarniad Hyfforddi. Dyma grynodeb o'r gofynion:

- Cofrestru
- Modiwl E-ddysgu Dyfarniad Hyfforddi
- Hyfforddiant Craidd Dyfarniad Hyfforddi
- Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol Dyfarniad Hyfforddi
- Dyfarniad Arwain perthnasol ar gyfer rhai disgyblaethau

Y safonau sylfaenol canlynol:

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf cyfredol
- Hyfforddiant Diogelu
- Aelodaeth lawn o Gymdeithas Gwlad Gartref
- Yn 16 oed neu'n hŷn adeg yr asesiad (18 oed neu'n hŷn ar gyfer dewisiadau Dŵr Uwch)

Ar ôl cwblhau'r holl ragofynion mae angen cymeradwyaeth gan Gymdeithas Gwlad Gartref arnoch cyn parhau i'r broses asesu. Gallwch gael rhagor o fanylion o'ch Cymdeithas Gwlad Gartref.


Copyright BCAB 2017

RHAID i chi fynd â’r gwaith papur canlynol i’ch asesiad:

1. Tasg Trafodaeth Asesiad wedi’i chwblhau (gweler y manylion drosodd)
2. Llyfr log o brofiad (gweler y manylion drosodd)
3. Tystiolaeth o gymeradwyaeth gan eich Cymdeithas Gwlad Gartref ar gyfer asesiad.

Ni all darparwyr dderbyn ymgeiswyr ar gyrsiau asesu heb yr eitemau hyn.

Sylwch y bydd angen i chi ymgymryd â’r cwrs a’i holl ofynion drwy gyfrwng y Saesneg (oni bai bod y cwrs yn cael ei hysbysebu/gyflwyno’n Gymraeg).


Copyright BCAB 2017

### Tasg Trafodaeth Asesiad

Mae’n bwysig eich bod yn medru cynllunio gweithgareddau hyfforddi sy’n bodloni anghenion y rhwyfwyr rydych yn eu hyfforddi. Wrth i chi ennill mwy a mwy o brofiad byddwch yn dechrau casglu cronfa o ddulliau y gallwch eu defnyddio i’w haddasu i amgylchiadau amrywiol. Nod y dasg hon yw eich helpu drwy’r broses a rhoi cyfle i chi drafod a rhannu eich syniadau. Bydd angen i chi baratoi’r dasg hon cyn dod i’ch asesiad.

1. Dewiswch faes perfformiad rydych yn dymuno helpu athletwr/dysgwr i ddatblygu ynddo.

   Efallai y byddech yn dymuno dewis rhwyfwr unigol neu grŵp o rwyfwyr sydd ag amcanion tebyg. Dewiswch sefyllfa sy’n nodweddiadol o’ch hyfforddiant ac sy’n ymwneud â’r Dyfarniad Hyfforddi rydych yn ei ddilyn. Gallwch ddefnyddio sefyllfa rydych wedi ei defnyddio yn flaenorol, neu un rydych ynghlwm wrthi ar hyn o bryd.

2. Rhowch wybodaeth gefndir am yr athletwyr/dysgwyr a disgrifiwch eu hanghenion a’u nodau penodol, gan gynnwys:

   - eu nodau, eu hamcanion a’u cymhellion
   - eu hanghenion dysgu
   - eu sefyllfa gychwynnol a meysydd i’w datblygu

   Ystyriwch yr holl feysydd perfformiad a allai eich helpu chi a’r athletwyr/dysgwyr i fodloni’r amcan/amcanion (Technegol, Tactegol, Corfforol a Seicolegol).

3. Rhowch nodiadau i ddisgrifio’r hyfforddiant sydd ei angen i ddatblygu eu perfformiad.  Dylech gynnwys:

   - yr hyn y byddech yn ei ddysgu
   - sut y byddech yn mynd ati i wneud hynny
   - y datblygiadau o ran hyfforddiant

Gallech ystyried hyn fel sesiwn unigol neu fel rhan o gyfres hirach o sesiynau, yn dibynnu ar yr hyn sydd mwyaf nodweddiadol o’ch hyfforddiant. Os yw’n sesiwn unigol, bydd angen i chi nodi sut y byddai’r rhwyfwr yn parhau i ddatblygu’r sgil hwn,


Copyright BCAB 2017

e.e. y cyngor/cyfarpar y byddech yn ei roi er mwyn iddynt barhau i ddysgu ac i annog dysgu yn y tymor hir.

Gallwch greu rhywbeth newydd at ddiben y dasg hon neu ddefnyddio dilyniant hyfforddi sy'n bodoli eisoes efallai eich bod wedi'i gofnodi'n flaenorol. Os oes gennych gynlluniau sesiwn ar bapur sy'n ymdrin â chynnwys perthnasol, gallwch, wrth gwrs, ychwanegu'r rhain at eich cyflwyniad.

Byddwch yn barod i ateb cwestiynau ynghylch eich nodiadau. Gall hyn gynnwys cwestiynau ynghylch:

- sut wnaeth sefyllfa gychwynnol y rhwyfwr (PWY ydyw) ddylanwadu ar eich dilyniannau (BETH sydd ei angen arno a SUT y byddai'n cael ei ddarparu), (ystyriwch ei oedran, gallu, profiad, dyheadau)
- pam ddewisoch y cynnwys penodol a pham roesoch y drefn benodol i'r cynnwys
- pam ddewisoch y strategaethau dysgu ac arwain penodol (sut wnaeth hyn gysylltu ag anghenion penodol yr athletwyr/dysgwyr?)
- sut fyddech yn mynd ati i ddatblygu'r elfennau Technegol, Tactegol, Corfforol a Seicolegol (y rhai a nodwyd neu lwybrau perthnasol eraill y byddai angen eu harchwilio, o bosibl)
- sut wnaethoch chi/sut fyddech chi (a'r perfformiwr) yn mesur llwyddiant/mesur perfformiad?
- sut aethoch ati i gyflawni'r dasg? A ddefnyddioch chi unrhyw adnoddau i'ch helpu?

Gweler y Canllawiau Asesu am ragor o fanylion a gwefan Corff Dyfarnu Canŵio Prydain am enghreifftiau.


Copyright BCAB 2017

## Profiad a Myfyrio

Mae profiad da'n allweddol fel sail gadarn i benderfyniadau arwain a dysgu ac mae'n bwysig bod gennych sail brofiad berthnasol a digonol sy'n eich cefnogi yn y broses o wneud penderfyniadau.

Disgwylir i'ch sail brofiad eich cefnogi o ran:

- arwain a hyfforddi mewn ystod o amodau, amgylcheddau a chychod perthnasol
- arwain a hyfforddi mewn ystod o amodau heriol a newidiol
- arwain a hyfforddi mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd
- achubiadau mewn ystod o gychod/amgylcheddau
- y gallu i ddelio ag ystod o broblemau
- gweithio gydag amrywiaeth o bobl wahanol; er enghraifft athletwyr/dysgwyr rydych yn eu hadnabod neu nad ydych yn eu hadnabod sydd â gwahanol anghenion technegol/tactegol/corfforol/seicolegol, a gwahanol ddyheadau.

Mae ansawdd y profiad a enillwyd yn hanfodol i gefnogi eich datblygiad. Mae'r gofynion hyfforddi/arwain rydych wedi dod ar eu traws yn rhoi cyfleoedd dysgu pwysig. Yn bwysicach fyth, yr hyn a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'ch datblygiad a'ch cymhwysedd fel hyfforddwr mewn amrywiaeth o amgylcheddau heriol a newidiol yw ystod a chyfuniad y profiadau hyn.

Nid yw profiad yn unig yn arwain at ddysgu o reidrwydd. Dylech roi sylw beirniadol i'ch profiadau a'ch camau gweithredu, gan ymgymryd â'r broses yn ystyriol, er mwyn dysgu ohonynt a gwneud synnwyr o sefyllfaoedd. Ystyrir y myfyrdod hwn yn un o'r ffynonellau mwyaf pwysig o ran datblygu a gwella personol. Mae myfyrio yn golygu edrych yn ôl ar gamau gweithredu a digwyddiadau yn y gorffennol, gan gymryd golwg pwrpasol ar emosiynau, profiadau, camau gweithredu ac ymatebion, a defnyddio'r wybodaeth hon i effeithio ar gamau gweithredu yn y dyfodol.

Cyn yr asesiad, bydd angen i chi ymarfer mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac amgylchiadau a dod â llyfr log o'ch profiadau gyda chi i'r asesiad. Gallwch ddod ag


Copyright BCAB 2017

unrhyw gofnodion o gynllunio a myfyrio gyda chi i'r asesiad hefyd. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth werthfawr i'r aseswr a all gefnogi ei asesiad o'ch sgiliau.

Gan amlaf, mae'r ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn yr asesiad wedi cyflawni o leiaf 15 sesiwn hyfforddi technegol/tactegol dilynol o ansawdd yn yr amgylchedd penodol. Gan amlaf, mae gan yr ymgeiswyr sy'n llwyddiannus fwy o lawer o'r safonau na'r rhai gofynnol, er y bydd hyn yn dibynnu'n sylweddol ar y sgiliau/profiadau eraill sydd ganddynt.


Copyright BCAB 2017

## 1. Hyfforddi Ymarferol

Bydd angen i chi gynllunio a chyflwyno gweithgaredd hyfforddi dilynol ac ymarferol am gyfnod o 90 munud o leiaf. Gall hyn fod yn ddwy sesiwn ymarfer ar wahân, nifer o sesiynau byrrach, neu un sesiwn hir. Byddwch yn hyfforddi dysgwyr go iawn; a dylai eu safon fod yn addas ar gyfer hyfforddi yn nherfynau uwch amgylcheddau'r dyfarniad penodol.

Yn ystod yr asesiad ymarferol, byddwch yn gyfrifol am ddiogelwch, hwyl a dysgu athletwyr/dysgwyr. Rydych yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am anghenion yr athletwyr/dysgwyr, yr amgylchedd ac am unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch, ac rydych yn gyfrifol am ddefnyddio'r wybodaeth hon, ac am sicrhau bod cynnwys a'r modd y mae'r sesiwn yn cael ei darparu'n bodloni anghenion a chymhellion yr athletwyr/dysgwyr.

Ar y cyfan, bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu gan eich aseswr wrth arsylwi eich perfformiad. Bydd yn cael ei hategu drwy holi cwestiynau a thrafod yr hyn y mae wedi'i arsylwi, eich profiadau blaenorol, eich ymatebion i'r dasg trafodaeth asesiad a/neu i sefyllfaoedd.

Rhaid i chi ddangos bod gennych y sgiliau, y wybodaeth gefndir a'r ddealltwriaeth i wneud y canlynol:

### Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau

1.1 cyflawni eich cyfrifoldebau hyfforddi

### Diogelwch

1.2 sefydlu a chynnal diogelwch

1.3 cynnal gweithdrefnau brys pan fo angen

### Cynllunio Sesiynau

1.4 cynllunio gweithgareddau dilynol i gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt

### Cyflwyno Sesiynau

1.5 paratoi'r amgylchedd hyfforddi


Copyright BCAB 2017

1.6 paratoi'r athletwyr/dysgwyr ar gyfer y sesiwn/sesiynau hyfforddi a'r gweithgareddau
1.7 nodi ffocws technegol a/neu dactegol ar gyfer y sesiynau
1.8 dewis strategaethau hyfforddi ac arwain sy'n canolbwyntio ar yr athletwr/dysgwr
1.9 strwythuro gweithgareddau dilynol sy'n datblygu sgiliau
1.10 cyfathrebu'n effeithiol i wella'r amgylchedd dysgu
1.11 sicrhau bod athletwyr/dysgwyr yn cael adborth perthnasol ynghylch eu perfformiad
1.12 cloi'r sesiwn

**Adolygu a Myfyrio**

1.13 adolygu perfformiad athletwyr/dysgwyr
1.14 dadansoddi eich arfer hyfforddi eich hun

Gweler Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain am fanylion ynghylch y gofynion hyn.


Copyright BCAB 2017

**2. Sgiliau Achub**

Rhaid i chi ddangos bod gennych y gallu, y sgiliau dyfarnu a'r sgiliau gwneud penderfyniadau sydd eu hangen i reoli'r digwyddiadau canlynol yn ddiogel:

2.1 rhwyfwr yn troi drosodd yn y dŵr

2.2 rhwyfwr ar ei eistedd wedi'i analluogi

2.3 rhwyfwr anymwybodol â'i wyneb i lawr mewn dŵr dwfn

2.4 rhwyfwr ar ei eistedd yn sownd

2.5 hunan-achub (lle rydych chi, fel yr hyfforddwr, wedi troi drosodd yn y dŵr neu wedi cwympo i'r dŵr)

Defnyddir sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag amgylchedd eich asesiad hyfforddi ymarferol.

| **Bydd angen i hyfforddwyr sy'n cwblhau'r dewisiadau asesu canlynol ddangos eu gallu:** | |
|---|---|
| **Ym MHOB UN o'r sefyllfaoedd a restrwyd uchod:** | **Mewn SAMPL o'r sefyllfaoedd a restrwyd uchod:** |
| Hyfforddwr Canŵ (Dŵr Cysgodol) | Hyfforddwr Canŵ Dŵr Agored |
| Hyfforddwr Caiac (Dŵr Cysgodol) | Hyfforddwr Caiac Môr |
| Hyfforddwr Canŵ a Chaiac (Dŵr Cysgodol) | Hyfforddwr Caiac Beiston |
| Hyfforddwr Dull Rhydd | Hyfforddwr Canŵ Dŵr Gwyn |
| Hyfforddwr Polo | Hyfforddwr Caiac Dŵr Gwyn |
| Hyfforddwr Rasio (y ddau lwybr) | Hyfforddwr Canŵ Dŵr Agored (Dŵr Profiadol) |
| Hyfforddwr Slalom | Hyfforddwr Caiac Môr (Dŵr Uwch) |
| Hyfforddwr Rasio Dŵr Gwyllt | Hyfforddwr Caiac Beiston (Dŵr Uwch) |
| | Hyfforddwr Canŵ Dŵr Gwyn (Dŵr Uwch) |
| | Hyfforddwr Caiac Dŵr Gwyn (Dŵr Uwch) |


Copyright BCAB 2017

Disgwylir i chi allu ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn gan ddilyn y gweithdrefnau cywir:

- rydych yn asesu'r sefyllfa'n gywir
- rydych yn dangos eich sgiliau dyfarnu a'ch sgiliau gwneud penderfyniadau
- dewis priodol o ddull achub (a chyfarpar achub)
- defnyddio tactegau priodol (gan ystyried nodweddion y dŵr, peryglon, tywydd, yr athletwr/y dysgwr)
- rhoi'r protocol gweiddi-estyn-taflu-rhwyfo ar waith
- rhoi'r protocol hunan-tîm-dioddefwr-cyfarpar ar waith
- mae'r achubwr yn gweithredu mewn modd priodol (yn bwyllog ac yn rheoli'r sefyllfa)
- rhoddir cyfarwyddiadau clir a chywir
- mae'r achubiad yn cael ei gyflawni mewn modd diogel ac effeithiol
- mae'r sawl sydd wedi'i anafu (a'r cyfarpar) wedi dychwelyd i amgylchedd sefydlog
- cymerwyd camau i osgoi hypothermia (os yn berthnasol)
- mae yna ymateb cymorth cyntaf priodol (os yn berthnasol)
- gweithredir egwyddorion symud a chario'n ddiogel ar bob adeg gan bawb
- mae cymorth priodol ar gyfer y sawl sy'n cael ei achub ac ar gyfer aelodau eraill y grŵp
- adroddir am y digwyddiad drwy'r sianeli priodol.

Gweler Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain am fanylion penodol ar gyfer pob achubiad.

### 3. Sgiliau Personol

Nid yw'r elfen asesu hon yn berthnasol i'r hyfforddwyr sy'n dilyn y cymwysterau Dull Rhydd, Polo, Rasio, Slalom neu Rasio Dŵr Gwyllt. Mae'n berthnasol i'r holl Ddyfarniadau Hyfforddi eraill.

Bydd angen i chi ddangos y sgiliau personol angenrheidiol er mwyn cyflawni sesiynau chwaraeon padlo diogel ac effeithiol mewn amgylcheddau sy'n berthnasol i'r cymhwyster. Rhaid eich bod yn gallu:


Copyright BCAB 2017

3.1 rheoli eich cwch yn effeithiol ac yn effeithlon mewn amrywiaeth o amodau perthnasol
3.2 dewis cwch priodol i hyfforddi ynddo
3.3 llywio'n effeithiol (cynllunio, ar y dŵr, os oes angen newid y cynllun/gadael y dŵr)
3.4 ymateb i a rheoli'r gofynion corfforol sy'n gysylltiedig â'r rôl hyfforddi
3.5 ymateb i a rheoli'r gofynion seicolegol sy'n gysylltiedig â'r rôl hyfforddi
3.6 rheoli eich hun o fewn fframweithiau diogelwch priodol

Gweler Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain am fanylion pellach.

**4. Gwybodaeth Gefndir, Dealltwriaeth a Phrofiad**

Mae angen ystod eang o wybodaeth gefndir, dealltwriaeth a phrofiad i gyflawni cyfrifoldebau'r hyfforddwr ac i lywio ei sgiliau dyfarnu a gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn cael ei asesu drwy gydol y rhaglen asesu drwy gwestiynu, trafodaethau a thasgau penodol ac yna'n cael ei brofi gan y camau gweithredu a gymerir.

Caiff sgiliau arwain ymarferol, hyfforddi, padlo personol ac achub eu tanategu gan:

4.1 y gallu i esbonio a chyfiawnhau penderfyniadau
4.2 sail eang o wybodaeth gefndir a dealltwriaeth
4.3 profiad perthnasol a digonol i gefnogi'r broses benderfynu
4.4 deall y defnydd o adnoddau a chyfrifoldebau arwain/hyfforddi
4.5 ymrwymiad i ddatblygiad personol ac arfer fyfyriol

Mae hyn yn berthnasol i amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n ymwneud â hyfforddi yn yr ystod o amgylcheddau sy'n berthnasol i'r cymhwyster ac nid yn unig y rhai sy'n cael eu profi ar ddiwrnod yr asesiad.

Mae angen i chi ddod â'ch llyfr log profiadau i'r asesiad. Gallwch ddod ag unrhyw gofnodion o gynllunio a myfyrio gyda chi i'r asesiad hefyd. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth werthfawr i'r aseswr a all gefnogi ei asesiad o'ch sgiliau. Gweler tudalen am arweiniad a manylion pellach.


Copyright BCAB 2017

Gweler Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain am fanylion pellach.


Copyright BCAB 2017

**Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

**Tystiolaeth o Gyflawni - Trosolwg o'r Asesiad**

| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd:** | | |
| **Rhif Aelodaeth Cymdeithas Gwlad Gartref:** | | |
| **Manylion Cwrs Asesu** | **Dyddiad:** | |
| | **Lleoliad:** | |
| | **Teitl y Dyfarniad:** | |
| | **Aseswr:** | |

| **Tasgau Asesu Terfynol:** | | |
|---|---|---|
| Teitl | Wedi'i gadarnhau gan yr aseswr (Nodwch ) | Nodiadau |
| Cymeradwyaeth gan Gymdeithas Gwlad Gartref ar gyfer Asesiad | ○ | |
| Tasg Trafodaeth Asesiad | ○ | |
| 1. Hyfforddi Ymarferol | ○ | |
| 2. Sgiliau Achub | ○ | |
| 3. Sgiliau Personol* | ○ | |


Copyright BCAB 2017

| | | |
|---|---|---|
| 4. Gwybodaeth Gefndir, Dealltwriaeth a Phrofiad | ○ | |

* Nid yw elfen Sgiliau Personol o'r asesiad yn berthnasol i'r hyfforddwyr sy'n dilyn y cymwysterau Dull Rhydd, Polo, Rasio, Slalom neu Rasio Dŵr Gwyllt. Mae'n berthnasol i'r holl Ddyfarniadau Hyfforddi eraill.

| **Cadarnhad Terfynol yr Aseswr** | | | |
|---|---|---|---|
| Cadarnhaf fod yr ymgeisydd a enwir uchod wedi cwblhau'r holl elfennau angenrheidiol yn ystod yr asesiad ac rwyf yn argymell bod Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn cyflwyno Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain i'r ymgeisydd yn y ddisgyblaeth a nodwyd uchod. Argymhelliad yw hwn ar gyfer ardystiad yn unig; ar ôl ei gadarnhau, bydd Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn awdurdodi'r ardystiad. | | | |
| Llofnod: | | Dyddiad: | |


Copyright BCAB 2017